
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC)

Mawrth 27 2018, 10.00 – 12:30

Tŷ Coch, Parc Menai Bangor

Yn bresennol:

Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Cadeirydd y Bwrdd
Elizabeth Woodcock	Myfyrwraig PhD
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyng. Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd – Is-Gadeirydd y Bwrdd
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Anwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Emyr Williams	Parc Cenedlaethol Eryri
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Dewi Jones	Cyngor Gwynedd
Jennifer Rao	Cyngor Gwynedd

Ymddiheuriadau:

Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi	Cyngor Sir Ynys Môn
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd

	GWEITHREDIAD
1	Croeso
	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau.
2	Cylch Gorchwyl
	Dim newidiadau i'w gyflwyno
3	Cofnodion cyfarfod 08 Ionawr 2018 a Materion yn Codi
	Cyflwynwyd y cofnodion a derbyniwyd hwy fel cofnod cywir o'r cyfarfod ar 08 Ionawr 2018.
4	Cynllun Llesiant Drafft
	<p>Rhannwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.</p> <p>Nodwyd bod Cynllun drafft wedi'i gyflwyno i Fwrdd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ddiweddar.</p> <p>Nodwyd bod y Cynllun drafft wedi'i gyflwyno i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a derbynnir sylwadau maes o law.</p> <p>Nodwyd bod Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Llawn Cyngor Gwynedd ar y 3ydd o Fai felly bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno ar gynllun terfynol erbyn canol mis Ebrill.</p> <p>Nodwyd bod y Bwrdd wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan aelodau'r BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer yr ymatebion gan aelodau'r cyhoedd yn isel mewn cymhariaeth â phoblogaeth Gwynedd ac Ynys Môn. Fodd bynnag, nodwyd bod yr ymateb gan y cyhoedd i holiaduron y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn isel ar draws Cymru. • Nodwyd bod y Cynllun yn strategol iawn ac mae'r drafft cyfredol yn wan ar fanylder a phwyntiau gweithredu. • Cytunwyd ei bod yn gynamserol i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan nad oedd wedi cau eto. • Trafodwyd y ffaith fod yr amserlen yn dynn a chytunwyd nad oedd yn debygol o fod yn bosibl i wneud llawer o addasiadau i'r fersiwn drafft. Gofynnwyd pe byddai modd rhoi ystyriaeth i gyfarch y materion sydd wedi eu cynnwys yng nghategori A yn ymateb Llywodraeth Cymru yn y fersiwn derfynol. • Cwestiynwyd pwy fydd yn craffu'r Cynllun – Comisiynydd neu Swyddfa Archwilio Cymru. <p>Pwyntiau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd bod angen dod a sylwadau'r sefydliadau at ei gilydd a'i ddadansoddi. • Cytunwyd bod angen creu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o aelodau'r BGC i fynd trwy'r ymatebion ac i greu rhestr tasg o sut mae'r Bwrdd yn mynd i ymateb a gweithredu ar y sylwadau gan y cyhoedd. Dewi Wyn Jones i drefnu'r cyfarfod hyn cgaph.

GWEITHREDIAD	
5	Perthynas rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chynnig lechyd a Gofal o weithio'n Is-Ranbarthol
	<p><u>Perthynas rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</u></p> <p>Croesawyd llythyr gan Y Cyng. Gareth Roberts a chytunwyd bod angen i'r Cadeirydd gyfarfod a'r Cyng. Gareth Roberts yn fuan ac i adrodd yn ôl i'r Bwrdd – Ffion Johnstone i drefnu cgaph.</p> <p><u>Cynnig lechyd a Gofal o weithio'n Is-ranbarthol.</u></p> <p>Trafodwyd y cynnig a nodwyd bod angen cynnwys aelodaeth annibynnol ar y grŵp a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol a dylid defnyddio'r fforymau presennol i ymgysylltu a hwy.</p> <p>Nodwyd bod angen sicrhau bod y Bwrdd lechyd a Gofal Integredig y Gorllewin yn canolbwyntio ar yr elfen gweithredu gan adrodd yn ôl i'r BGC yn rheolaidd.</p> <p>Cytunwyd i symud ymlaen gyda'r cynnig ac y dylid adrodd yn ôl gyfarfod nesaf y Bwrdd ar y strwythur derfynol a'r gofynion o safbwynt yr hyn sydd angen i'r Bwrdd ei gomisiynu – Ffion Johnstone i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd.</p>
6	Strwythur cyflawni – sefydlu grŵp gwaith ar gyfer pob blaenoriaeth
	<p>Trafodwyd y posibilrwydd o aelodau'r BGC yn arwain ar y gwahanol feysydd blaenoriaeth.</p> <p>Nodwyd fod angen i'r grwpiau hyn cyflwyno papurau i'r BGC gyda awgrymiadau o ran gweithredoedd tymor byr, canolig a hir.</p> <p>Pwyntiau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd Jerry Hunter yn cytuno i arwain y grŵp Iaith Gymraeg. • Cadeirydd a Dewi Wyn Jones i drafod y meysydd blaenoriaeth eraill ac i gysylltu ag aelodau BGC i drafod parodrwydd i arwain ar feysydd blaenoriaeth.
7	Cydweithrediad BGC Rhanbarthol Gogledd Cymru – cynnig cyllid
	<p>Trafodwyd y cynnig o hyfforddiant gan Brifysgol Glyndŵr a nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nad oes tystiolaeth neu sail dros angen hyfforddiant arweinyddiaeth ar aelodau'r BGC. • y posibilrwydd o ddefnyddio'r gyllideb ar gyfer cyflawni prosiectau. • bod y cynnig yn uniaith Saesneg, a bod hyn yn annerbyniol. <p>Pwynt Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dewi Wyn Jones i gadarnhau beth yw'r ffiniau ar gyfer yr arian grant ac i adrodd yn ôl i aelodau'r BGC.
8	Gohebiaeth
	<p>Derbyniwyd adroddiad ar gyd-weithio ar draws sectorau gan Elizabeth Woodcock o Brifysgol Bangor.</p> <p>Cyflwynwyd y camau nesaf i'r prosiect a chadarnhawyd y bydd Elizabeth yn adrodd yn ôl i'r BGC yn rheolaidd.</p>

9	Heriau a Chyfleon
	Trafodwyd yr heriau sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru yn y maes caffael. Cytunwyd y byddai Siân Williams yn cysylltu ag aelodau'r BGC i ofyn am yr heriau caffael y maent yn eu hwynebu yn eu sefydliad.
10	Unrhyw Fater Arall
	Gofynnwyd a oedd yn bosib pe gellid fformatio'r papurau cyfarfod fel bod toriad tudalen rhwng pob eitem.
11	Trefniadau'r cyfarfod nesaf
	Cyfarfod i'w drefnu yn ystod y pythefnos cyntaf ym mis Gorffennaf. Lleoliad i'w gadarnhau.